

## Bendithion Duw



*Roedd hen ffarmwr o Dalybont [yn anffodus mae Jim Morgan, Maesnewydd wedi marw ers sawl flwyddyn bellach] yn arfer dweud wrthyf fod dim gwahaniaeth pa dywydd oedd e byddai wastad cynhaeaf. Y mae John Howells, ffermwr o Aberystwyth, yn rhoi diolch am droad y flwyddyn*

Wrth sgwrs mewn un ffordd mae'r cynhaeaf llawer yn rhwyddach y dyddiau hyn. Fel plentyn 'rwy'n cofio roeddem yn tyfu ceirch a barlys yn o gystal â gwair. Byddai ochrau'r cae yn cael eu torri gyda phladur i wneud lle i'r tractor dod mewn. Ar yr adeg hynny 'roedd y tractor ond yn dechrau cymryd drosodd o'r ceffyl. Gan fod y cynhaeaf yn adeg mor bryderus byddai cyrddau gweddi arbennig yn cael eu cynnal i weddio ar gyfer tywydd ffafriol. Dyna pam 'roedd y cyrddau

diolchgarwch mor bwysig hefyd. Adeg hynny byddai'n "well cael cynhaeaf gwael ar y dydd Llun na thorri'r Saboth er mwyn cael cynhaeaf gwell". Mae newid o wair i silwair yn golygu nad yw ffermwyr mor ddibynnol ar y tywydd. Mae peiriannau enfawr yn gallu cywain lan at 100 cyfer y dydd. Erbyn hyn mae sut gymaint yn wahanol ac yr ydym yn byw mewn cymdeithas fydol lle nad yw Duw yn cael Ei briod le mwyach.

Er fy mod wedi fy magu ar fferm godro yn Sir Gâr 'roedd fy rhieni yn ddeheu i mi gael gwell bywyd na ffermio. Ar ôl graddio mewn Astudiaethau Americanaidd o CPC Aberystwyth sylweddolais fod fy nghalon yn y tir o hyd. Es i weithio ar fferm llaeth a defaid yn Nhalybont lle treuliais 4 mlynedd yn gweithio gyda theulu Maesnewydd. Dysgais lawer mwy na jyst amaethu oddi wrth Jim a Dewi Richards a oedd yn rhedeg y fferm mynydd.

Erbyn hyn 'roedd fy rhieni wedi gwerthu'r fferm adre felly ar ôl llawer o gyfweiliadau daeth y cyfle i gymryd ymlaen fferm ar rent gan y Cyngor. Yno, yn Llanrhystud bu fi a'r wraig yn godro, wyna a magu 6 o blant. Er fy mod wedi pasio oed yr addewid rwy'n dal i odro bob dydd ac mae rhyw heddwch yn gysylltiedig â gweithio gyda'r ddaear ac anifeiliaid. Wrth sylwi ar brydferthwch Ei greadigaeth 'rwy'n ddiolchgar bob dydd am fendithion yr Arglwydd. Oes, mae problemau a dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gorfod ymdopi gyda Brucellosis, "TB", Cwotâu Llaeth, "Mad Cow", "Foot & Mouth", ac yn nawr coronafeirws. Mae'n anodd - wrth roi o'n gorau - i ddarllen yn y Wasg bod ffermwyr yn cam-drin eu stoc ac yn gyfrifol am broblemau newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn hoffi gwahodd rhai o'r beirniaid i dreulio peth amser ar fferm ac i fod allan drwy'r nos yn wyna neu tan hwyr y nos yn ceisio cywain y gwair / silwair cyn bod y tywydd yn troi! Hefyd, er bod y gwaith mewn un ffordd yn anoddach yn gorfforol flynyddoedd yn ôl roedd adeg cynhaeaf yn amser cymdeithasol gyda chymdogion yn helpu ei gilydd. Heddiw, mae bywyd ffermwr yn gallu fod yn unig iawn.

Wrth I mi ysgrifennu, mae'r ail doriad silwair mewn yn ddiogel ac y byddwn yn edrych ymlaen at y trydydd fel bod bwyd i gadw'r anifeiliaid drwy'r gaeaf. Er fy mod yn ymwybodol bod sut gymaint o broblemau yn y byd - diffyg dŵr, methiant cnydau ac yn sgil hwnna plant yn llewygu - mae'r rheiny'n aml yn broblemau sy'n tarddu o effaith dyn ar gytbwys naturiol y byd. [Trafodaeth bwysig ar gyfer erthygl lawn ynddo'i hunan].

Yn bersonol, rwy'n ymwybodol iawn o'r bendithion y mae Duw wedi rhoi i mi. Wrth feddwl nôl at Jim Morgan, 'roedd ef hefyd yn hoff iawn o adrodd 'Fy ngwas bach i yn y byd hwn gorthrymder a cheir' [John 16 v33] ond 'roedd e byth yn gorffen yr adnod. 'Rwy'n falch iawn fy mod yn gallu tystio i'r ail hanner "ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd". Amen!

